# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 1AF GORFFENNAF, 2021**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00 YB

Lleoliad

**Yn Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rhian Davies**

**01286 679868**

**einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 23 Mehefin 2021)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Menna Baines | Beca Brown |
| Annwen Daniels | Alan Jones Evans |
| Gareth Tudor Morris Jones | Linda Ann Jones |
| Olaf Cai Larsen | Dafydd Owen |
| Berwyn Parry Jones | Linda Morgan |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Richard Medwyn Hughes | Eryl Jones-Williams |
| Beth Lawton | Dewi Wyn Roberts |
| Angela Russell | |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

## Y Blaid Genedlaethol (1)

Y Cynghorydd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2021/22

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**6. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2021 fel rhai cywir

**7. CEFNOGAETH I UNIGOLION SYDD A'R CYFLWR DEMENTIA YNG NGWYNEDD** 9 - 13

Ystyried diweddariad o adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor fis Ionawr 2020 oedd yn codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr Dementia ac yn rhoi trosolwg o'r hyn sydd a'r waith i gefnogi unigolion sydd yn byw gyda Dementia yng Ngwynedd.

**8. DARPARIAETH TAI YN Y GYMUNED AR GYFER POBL GYDAG ANABLEDDAU DYSGU** 14 - 18

I graffu rhaglen y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i sicrhau darpariaeth digonol o dai addas yn y gymuned ar gyfer unigolion gydag Anabledd Dysgu nawr ac i'r dyfodol.

**9. RHAGLEN WAITH DDRAFFT CRAFFU 2021/22** 19

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft craffu 2021/22 i'w mabwysiadu

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL
# 18/03/2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Dewi Roberts (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Annwen Daniels, Anwen J Davies, Alan Jones Evans, Berwyn Parry Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Olaf Cai Larsen, Dafydd Owen, Peter Read, Angela Russell

**Aelod Ex-officio**: Y Cynghorydd Edgar W Owen

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Einir Rhian Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), Natalie Ll Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Arwel W Owen (Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant), Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Adran Tai ac Eiddo), Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Adran Tai ac Eiddo), Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo), Carys Fôn Williams (Uwch Reolwr Gweithredol Tai), Hedd Morlais Tomos (Rheolwr Cyflenwad Tai)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd R Medwyn Hughes a’r Cynghorydd Linda Morgan

**2. DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen am y rhesymau a nodir:

Y Cynghorydd Cai Larsen oherwydd ei fod yn eistedd ar Fwrdd Adra

Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones oherwydd ei fod yn eistedd ar Fwrdd Adra

Nid oedd yr aelodau o’r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen am y rhesymau a nodir:

Y Cynghorydd Cai Larsen oherwydd ei fod yn eistedd ar Fwrdd Adra

Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones oherwydd ei fod yn eistedd ar Fwrdd Adra

Y Cynghorydd Linda A Jones oherwydd ei bod yn Gyfarwyddwr Seren Cyf

Nid oedd yr aelodau o’r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem am y rheswm hwn. Gadawodd y Cynghorydd Linda A Jones ar ddechrau y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14Ionawr, 2021 fel rhai cywir.

**5. DARPARIAETH GOFAL A THAI YCHWANEGOL AR SAFLE PENRHOS, PWLLHELI**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad ar ddatblygiadau safle Penrhos. Cadarnhawyd nad datblygiad tebyg am debyg fyddai hwn, ond cyfle i edrych ar anghenion pobl Gwynedd. Cadarnhaodd bo sesiynau eisoes wedi eu cynnal i geisio cael dealltwriaeth o’r anghenion.

Tywysodd y Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant drwy yr adroddiad, gan ehangu ar rhai materion fel y nodir isod.

Nodwyd mai bwriad y datblygiad yw creu safle tai gydag agweddau gofal drwy bartneriaeth fewnol rhwng yr Adran Tai ac Eiddo a’r Adran Oedolion.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chydweithio gyda Chlwyd Alun, nodwyd bod y Cynllun wedi ei drafod gyda holl Gymdeithasau Tai Gwynedd. Roedd y Cymdeithasau Tai eraill yn teimlo nad oedd profiad digonol ganddynt ar gyfer prosiect o’r maint. Mae cydweithio da wedi bod gyda Clwyd Alun, a’u staff wedi ymrwymo i’r polisi iaith ac yn trafod yn y Gymraeg a Phwyleg. Cadarnhawyd bo gan Glwyd Alun gryn brofiad yn y maes gofal.

Nodwyd pryder am y sefyllfa o ran prinder cyfleusterau gofal nyrsio a gofal dementia ym Mhen Llyn ac yn Ne y Sir. Amlygwyd gobaith o fwrw ymlaen i baratoi cynlluniau a denu arian ar gyfer y Safle yn 2021, gan obeithio cychwyn ar y gwaith yn 2022. Cadarnhawyd bod adlewyrchu ar sefyllfa yr ardaloedd gwledig yn rhan bwysig o’r drafodaeth. Cadarnhawyd hefyd bod y Cyngor wedi buddsoddi mewn gwlâu dementia, ond ei bod yn anodd iawn denu buddsoddiad mawr yn y maes. Nodwyd bod sefyllfa Cartref Penrhos wedi creu cyfle yn y rhan hon o’r Sir i adeiladu rhywbeth arbennig.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant bod dadansoddiad angen ar droed gan fod nifer o wlâu nyrsio wedi eu colli o Benrhos.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chost y datblygiad mynegwyd y gallai fod rhwng £5m a £20m ar gyfer model gofal mor arloesol.

Nodwyd y weledigaeth ar gyfer y safle sef cartref gofal o faint, fyddai yn cynnwys gwlâu nyrsio a phreswyl, wedi ei amgylchu gyda thai gwarchod, a'r cysyniad o 'gymuned ofal'. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau ac adnoddau.

Mewn ymateb i gwestiwn am y prif heriau amlygwyd fod cyflwr yr adeilad presennol yn broblem fawr ond fod y datblygiad yn cynnig nifer o gyfleon.

Codwyd y cwestiwn a ddyled ystyried cysylltu â Mark Drakeford a Vaughan Gethin i ddwyn i'w sylw y problemau prinder staff er mwyn iddynt roi hwb i'r datblygiad? Cadarnhawyd bod safle Penrhos wedi bod yn gyflogwr enfawr o bobl leol ac y byddai datblygiad o'r math yn hwb mawr i'r farchnad waith .

Amlygwyd yr angen i roi sylw i faterion megis Llwybr Beicio ynghyd a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus.

Diolchodd yr Aelod Cabinet am sylwadau'r Pwyllgor gan bwysleisio y bydd yn diweddaru'r aelodau yn gyson.

Nododd y Cadeirydd fod y prosiect fel gwe pry cop yn ymestyn allan. Cadarnhaodd bo gofal a'r diwylliant gofal yn newid. Nododd y cyfle yma i wneud rhywbeth fyddai yn esiampl i weddill y Sir, ac addawyd y byddai y gymuned yn rhan o'r datblygiad.

**PENDERFYNWYD :** Derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.

## 6. DEFNYDD O'R GRANT CYMORTH TAI I LEIHAU DIGARTREFEDD YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet a nododd bod cynnydd yn y nifer digartref o fewn Gwynedd. Pwysleisiodd fod cartrefu unigolion mewn llety gwely a brecwast yn annerbyniol, gan amlygu'r angen i gefnogi unigolion nid cynnig lloches yn unig.

Cadarnhaodd y Pennaeth Adran bod y sefyllfa wedi gwaethygu ers COVID gyda chynnydd o 71%, sydd gyfystyr a 900 o unigolion, wedi eu cyfeirio at y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd at y ffaith mai tîm bach iawn yw'r tîm sydd yn ymwneud a digartrefedd, ond fod gweledigaeth ganddynt ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth. Adroddwyd bod dau reolwr newydd wedi eu penodi, sydd wedi lleihau y baich ar weddill y tîm, ond fod pwysau yn parhau. Amlygwyd ei ddymuniad i ehangu y tîm presennol er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau.

Derbyniwyd diweddariad o ran y sefyllfa ar hyn o bryd yn ogystal â'r bwriad i ddatblygu unedau ar draws y Sir. Pwysleisiwyd yr angen i ystyried posibiliadau o fewn ardaloedd penodol. Cyfeiriwyd at yr opsiwn i ddefnyddio adeiladau sydd yn bodoli yn barod yn rhai ardaloedd ac i addasu hosteli i fod yn unedau cefnogaeth. Nodwyd pwysigrwydd cadw unigolion o fewn eu cynefin a'u cymunedau cymaint â phosib. Nododd y Pennaeth ei ddymuniad i beidio defnyddio llety gwely a brecwast ar wahân i mewn achos o argyfwng, gan ddatblygu llety ar draws y Sir.

Diolchwyd am yr adroddiad, gan nodi nad oedd un math o wasanaeth am fod yn addas i bawb. Nodwyd y pwysigrwydd o gydweithio gydag asiantaethau ac aelodau lleol sydd yn adnabod yr ardal a'i phobl.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chadw gwell cysylltiad ag unigolion wrth iddynt wynebu digartrefedd noddodd y Pennaeth Adran, ar hyn o bryd, fod un aelod o staff yn cefnogi 60 unigolyn. Pwysleisiwyd y deheuad i'w leihau i 25 unigolion i bob un aelod o staff. Mynegwyd yr angen i apwyntio swyddogion newydd er mwyn gwireddu'r dyhead gan ychwanegu eu bod yn derbyn ceisiadau gan unigolion addas ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn am ariannu i'r dyfodol, cadarnhawyd nad oes sicrwydd pendant am yr arian grant ond fod cyfarwyddiadau yn amlygu'r angen i gynllunio ar sail hirdymor. Cadarnhawyd yn ogystal y bydd awdit yn cael ei gynnal o fewn y flwyddyn i sicrhau fod yr arian grant yn cael ei wario yn addas ac os yw'r swm yn ddigonol.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet y sylwadau canlynol wrth ddod a'r sgwrs i derfyn -

1. Mae cydweithio gyda chymunedau yn bwysig ac yn angenrheidiol er mwyn llwyddo.
2. Mae angen gweithio gyda yr arian sydd ar gael, gan osod yr arian yn ei gyd-destun
3. Diolch am yr ymateb positif, sydd yn galonogol iawn .

Diolchwyd am y drafodaeth a chytunwyd i rannu y diolchiadau gyda y swyddogion.

**PENDERFYNWYD :** Derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:45

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Pwyllgor Craffu Gofal** |
| Dyddiad | **1 Gorffennaf, 2021** |
| Teitl | **Cefnogaeth i Unigolion sydd a'r Cyflwr Dementia yng Ngwynedd** |
| Awdur | **Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion** |
| Aelod | **Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant** |

**1. Pwrpas yr adroddiad.**

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Gofal i roi diweddariad o adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor fis Ionawr 2020 oedd yn codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr Dementia ac yn rhoi trosolwg o'r hyn sydd a'r waith i gefnogi unigolion sydd yn byw gyda Dementia yng Ngwynedd.

2. **Ein atgoffa beth ydi Dementia?**

2.1 *Mae'r gair 'dementia' yn disgrifio grŵp o symptomau a allai gynnwys colli cof, anawsterau meddwl, datrys problemau neu iaith. Mae'r newidiadau hyn fel arfer yn cychwyn yn fychan, ond i rywun â dementia maent wedi dod yn ddigon drwg i effeithio ar fywyd bob dydd.* [1]

2.2 Oherwydd ei natur (symptomau yn fwy amlwg dros amser wrth i'r cyflwr waethygu, a chyfradd diagnosis isel) mae'n anodd gwybod faint yn union o bobl sy'n byw efo'r cyflwr. Mae yna astudiaethau Cenedlaethol sy'n amcangyfrif y cyfran o boblogaeth gwahanol grwpiau oedran sydd â'r cyflwr, ac ar sail hynny a phroffil oedran Gwynedd, gellir amcangyfrif fod yna 2,049 [2] o unigolion gyda dementia yng Ngwynedd, sef 1.67% o'r boblogaeth (122,864). [3]

**3. Cynllun gweithredu Cymru ar Gyfer Dementia 2018-2022.**

3.1 Gweledigaeth y cynllun yw "Cenedl sy'n deall dementia ac sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia, sy'n eu gwerthfawrogi ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau."

3.2 Mae'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn ymrwymedig i gyflawni gofynion y cynllun ac yn adrodd ar lwyddiannau a'r rhwystrau i Grŵp Sicrwydd Cyflenwi a Gweithredu ar Ddementia.

**4. Cefnogaeth a Gwasanaethau Gwynedd.**

[1] www.alzheimers.org.uk
[2] Alzheimer's Research UK Statistics 2015
[3] Defnyddir Amcangyfrifon canol blwyddyn 2015 - Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn cael blwyddyn cyson gyda ffigwr Alzheimer's Research UK Statistics

4.1 Fel mae'r boblogaeth yn heneiddio, mae ein gweledigaeth yn parhau i alluogi pobl i fyw adref mor annibynnol a phosib am mor hir a phosib. Mae angen sicrhau fod y ddarpariaeth gofal a chefnogaeth cywir ar gael ar yr amser cywir ac yn y lle cywir i gwrdd ac amrediad o anghenion.

4.2 Mae'r pandemig Covid-19 a'n profiadau dros y flwyddyn diwethaf wedi amlygu pwysigrwydd cefnogaeth ymarferol yn y gymuned a seibiant rheolaidd i ofalwyr anffurfiol i gefnogi unigolion a dementia a'i gofalwyr. Er ein bod wedi addasu a darparu gwasanaethau mewn ffordd amgen (darpariaeth gofal un i un a chyngor a chefnogaeth rithiol) gan nad oedd yn bosib darparu gwasanaethau gofal dydd ac ysbaid traddodiadol; mae pwysau cynyddol wedi bod ar ofalwyr anffurfiol i gefnogi unigolion a dementia. Rydym wedi profi dirywiad yn iechyd unigolion sydd a dementia a'i gofalwyr dros y flwyddyn o gysgodi sydd wedi arwain at geisiadau brys am ofal arbenigol hir dymor.

4.3 Mae'r Adran yn y broses o adolygu asesiadau risg ac ail fodelu gwasanaethau dydd ac ysbiad er mwyn cynllunio ar gyfer ail agor gwasanaethau yn raddol pan fydd canllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu. Nid ydyw yn bosib gwneud hyn yn sydyn nac yn rhwydd o ganlyniad i'r angen i gydbwyso risgiau a'r rhwystrau ymarferol sydd yn codi wrth sicrhau fod lleoliadau yn addas i gydymffurfio a rheolau pellter cymdeithasol. Gall pethau newid yn sydyn iawn petai mwy o achosion lleol neu straen newydd o'r firws yn lledaenu.

4.4 Mae'r gwasanaeth Dementia Actif wedi addasu i ymateb i gyfyngiadau COVID-19. Er nad oedd yn bosib cwrdd wyneb yn wyneb, bu'r gwasanaeth yn cadw mewn cysylltiad ac unigolion yn rheolaidd trwy:

- alwadau ffôn, negeseuon testun, e-byst a galwadau fideo.
- gefnogi unigolion i ddysgu a defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad.
- gadw cofnod o'r galwadau er mwyn deall effaith y cyfnod clo ar yr unigolyn.
- gynhyrchu newyddlen reolaidd gyda gwybodaeth am wasanaethau cefnogol
- gynnal sesiynau 'Cyfeillion Dementia' Rhithiol.
- gynnal grŵp cefnogaeth a llesiant rhithiol i ofalwyr unigolion sydd yn byw gyda dementia.

4.5 Mae Dementia Actif wedi Cydweithio gyda Byw yn Iach i godi ymwybyddiaeth am ddementia a sut i greu cyfleusterau dementia gyfeillgar gan hyfforddi dros 100 aelod o staff.

4.6 Ail ddechreuodd Dementia Actif ddarparu dosbarthiadau ymarferion ysgafn rhithiol ar-lein ym mis Medi 2020 mewn ymateb i'r pandemig. O'r cychwyn cyntaf, roedd yn amlwg cymaint yr oedd yr aelodau'n mwynhau ac yn elwa o'r dosbarthiadau. Cafodd rhai o'r dosbarthiadau eu recordio a'u rhannu ar dudalen Facebook

4.7 Yn Ionawr 2021 lansiwyd gwefan newydd Dementia Actif Gwynedd.

4.8 Mae arian cronfa ICF Llywodraeth Cymru wedi ei ddefnyddio i ehangu'r gefnogaeth 'Cyswllt Dementia' gan Gymdeithas Alzheimers. Mae'r gwasanaeth hwn yn bwynt cyswllt syml sydd yn cysylltu defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys eu gofalwyr, gyda chefnogaeth ymarferol i'w grymuso i ymdopi gyda'r cyflwr a pharhau i fod yn actif o fewn eu cymunedau. Mae'r gwasanaeth Cyswllt Dementia wedi bod yn rhoi cefnogaeth rhithiol dros gyfnod y pandemig. Arian dros dro sydd yn cyllido'r gwasanaeth yma a bydd adolygiad rhanbarthol o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal yn ystod 2021.

4.9 Mae cyllideb ICF Llywodraeth Cymru hefyd wedi ein galluogi i barhau gyda'r cynllun gweithwyr cefnogol Dementia sydd yn rhan o'r Timau Adnodd Cymunedol ac yn cefnogi unigolion a'r cyflwr

dementia a'i gofalwyr i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Yr her i'r Adran fydd sicrhau cyllideb hir dymor ar gyfer y gwasanaethau sydd yn cael eu cyllido dros dro. Mae'n debygol bydd hyn yn arwain at gyflwyno bidiau am arian parhaol trwy'r cylch bidiau arferol i gyllido'r gwasanaethau gwerthfawr yma yn barhaol.

4.10 Mae cydnabyddiaeth na fydd yn bosib bob amser i bobl barhau i aros yn eu cartref eu hun. Mae Gwynedd yn awyddus i sicrhau fod pobl gyda dementia yn derbyn y gofal mwyaf addas mor lleol ag sy'n bosib.

4.11 Mae galw am ddarpariaeth dementia yn parhau i gynyddu'n sylweddol ac er ein bod wedi buddsoddi i gynyddu'r cyflenwad o wlâu mae rhestrau aros am y ddarpariaeth dementia yn amlach gymaint os nad yn uwch na rhestrau aros am wlâu preswyl safonol.

4.12 Yn ystod 2020 agorwyd uned newydd yng Nghartref preswyl Plas Hedd i ddarparu gofal i 7 unigolyn sydd yn ychwanegu at y ddarpariaeth preswyl arbenigol sydd eisoes yn bodoli yng Nghartrefi Plas Maesincla, Bryn Blodau, Llys Cadfan a Plas Hafan. Rydym ar hyn o bryd yn paratoi i agor Uned newydd yng nghartref Bryn Blodau ar gyfer 8 unigolyn ac mae disgwyl i waith adeiladu ar gartref Hafod Mawddach gael ei gwblhau cyn diwedd yr Haf fydd yn darparu gofal i 8 unigolyn. Erbyn diwedd 2021 rydym yn gobeithio y bydd gennym 69 o wlâu dementia allan o 315 o wlâu ar draws 11eg cartref preswyl y Cyngor yng Ngwynedd sydd yn cael eu defnyddio yn hyblyg i gefnogi unigolion sydd angen gofal hir dymor ac i roi seibiant rheolaidd i ofalwyr.


4.13 Fodd bynnag wrth ystyried y data Cenedlaethol a gwybodaeth leol, mae yn debyg y bydd rhaid ystyried y posibiliadau i gynyddu nifer yr Unedau ymhellach yn y dyfodol neu i addasu cofrestriad cartrefi i gynyddu darpariaeth. Bydd raid ystyried rheoliadau Arolygaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod gofynion staffio priodol yn yr unedau i gwrdd a'r angen. Yn ogystal bydd angen ystyried oblygiadau cyllido addasiadau i'r cartrefi i sicrhau fod yr amgylchedd yn addas ynghyd a chyllido'r gofal yn yr hir dymor.

4.14 Mae cynlluniau yn cael eu datblygu ar gyfer buddsoddi mewn mwy o gartrefi'r Cyngor a bydd yr Asesiad Anghenion Poblogaeth fydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer Gwynedd dros y misoedd nesaf yn rhoi arweiniad ynghylch beth ydyw'r angen yn lleol a dymuniadau pobl Gwynedd ynghylch gwasanaethau Dementia. Rydym yn rhagweld y bydd pobl Gwynedd eisiau gwasanaethau lleol yn y gymuned gyda chefnogaeth ymarferol a seibiant rheolaidd i ofalwyr i'w cefnogi i barhau i ofalu am unigolion sydd yn byw gyda dementia.

## 5. **Oblygiadau Ariannol**

5.1 Mae astudiaethau cenedlaethol yn amcangyfrif cost y cyflwr fesul achos. Dengys y siart isod[4] fod costau yn amrywio gyda difrifoldeb y cyflwr, o tua £26,200 y flwyddyn ar gyfer achosion llai difrifol, i £39,300 ar gyfer achosion cymedrol, i £41,200 yn yr achosion mwyaf difrifol. Mae'r costau yma yn cynnwys cost gofal iechyd, gofal cymdeithasol (p'run ai yn disgyn ar awdurdodau lleol neu gyfraniad yr unigolyn / teulu at y costau), a chost cyfatebol ffrindiau a theuluoedd yn darparu gofal di-dâl.

[4] Prince, M et al (2014) Dementia UK: Update Second Edition report produced by King's College London and the London School of Economics for the Alzheimer's Society




5.2 O gymryd wedyn bod patrwm difrifoldeb y cyflwr yng Ngwynedd (h.y. y cyfran o achosion llai difrifol / cymedrol / mwyaf difrifol) yn dilyn y patrwm welir ar draws Prydain gyfan [5], gellir wedyn amcangyfrif cyfanswm cost blynyddol dementia yng Ngwynedd, a faint o'r gost yma sy'n debygol o fod yn disgyn ar y Cyngor, fel a ganlyn:

5.3 Amcangyfrif cyfanswm cost dementia yng Ngwynedd

| | **Amcangyfrif cyfanswm cost *** | | **O hyn - elfen sy'n disgyn ar y cyngor (amcan.)** | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori difrifoldeb** | **£ y flwyddyn** | **Cyfanswm £ y flwyddyn** | **£ y flwyddyn[6]** | **Cyfanswm £ y flwyddyn** |
| **Llai difrifol 55.4% sef 1135 achos** | £26,212 | £29.75m | £2,343 | £2.66m |
| **Cymedrol 32.1% sef 658 achos** | £39,293 | £25.85m | £9,376 | £6.17m |
| **Mwyaf difrifol 12.5% sef 256 achos** | £41,187 | £10.54m | £9,691 | £2.48m |
| **Cyfanswm cost** | | **£66.14m** | | **£11.31m** |

** Cyfanswm cost = iechyd, gofal cymdeithasol (gyllidir gan gynghorau + yn breifat), gwerth gofal di-dâl*


5.4 Fe welir felly yr amcangyfrifir bod cost y cyflwr oddeutu £66 miliwn yng Ngwynedd mewn cyfanswm, a bod tua £11 miliwn o'r costau yma yn disgyn ar y Cyngor ar gyfer darparu gofal cymdeithasol.

5.5 Yn y dyfodol, wrth i'r boblogaeth hŷn gynyddu, bydd y niferoedd sydd yn dioddef o ddementia yn cynyddu yn ogystal. Damcanir Dementia UK bydd y nifer presennol gyda dementia ym Mhrydain yn codi o 850,000 i 1,683,000 erbyn 2039. Gyda'r dybiaeth fod mynychder dementia (fesul grŵp oedran) yn aros yr un fath, rydym yn taflunio y bydd y nifer gyda dementia yng Ngwynedd yn codi o 2,049 i

[5] O https://www.alzheimers.org.uk/sites/default/files/migrate/downloads/dementia_uk_update.pdf (tud 38)

[6] Wedi amcangyfrif bod 43.7% o gost gofal cymdeithasol yn disgyn ar awdurdodau lleol, a bod y cyfran yma'n gyson ar draws y categorïau difrifoldeb (yn absenoldeb gwybodaeth fanylach fesul difrifoldeb). A hynny ar sail y rhaniad ar t.104 o'r adroddiad uchod

3,494 erbyn 2039 – sef cynnydd o dros 70%. Mae'r tafluniad a gyflwynir yma yn cael ei yrru gan heneiddio demograffig.




5.6 Bydd y cynnydd yn rhoi pwysau mawr ar y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau gofal cymunedol i gefnogi y rhai sydd yn dioddef o ddementia a'i gofalwyr.

6 **Camau nesaf**

6.1 Byddwn yn parhau i ymrwymo i gyflawni gofynion Cynllun Gweithredu Cymru ar Gyfer Dementia trwy gydweithio gydag unigolion, eu teuluoedd a ffrindiau a'n partneriaid yn y trydydd sector a'r Bwrdd Iechyd.

6.2 Byddwn yn craffu canlyniadau yr Asesiad Anghenion Poblogaeth i sicrhau ein bod yn cael y darlun cyfan o anghenion pob ardal yng Ngwynedd. Bydd y canfyddiadau yn sail i ail ddylunio ac adfer gwasanaethau cefnogol.

6.3 Rydym yn ddibynnol ar arian dros dro i gefnogi nifer fawr o'r datblygiadau yn y ddarpariaeth gofal i unigolion a dementia. Byddwn yn ail ymweld a'r rhaglen fuddsoddi i geisio sicrwydd cyllido hir dymor i er mwyn sicrhau arian hir dymor i gynnal gwasanaethau presennol a datblygiadau newydd.

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**Pwyllgor:** **Pwyllgor Craffu Gofal**

**Dyddiad:** Gorffennaf 1af, 2021.

**Teitl:** Darpariaeth Tai yn y gymuned ar gyfer pobl gydag Anabledd Dysgu

**Pwrpas:** Craffu rhaglen y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i sicrhau darpariaeth digonol o dai addas yn y gymuned ar gyfer unigolion gydag Anabledd Dysgu nawr ac i'r dyfodol.

**Swyddog cyswllt:** Alun Gwilym Williams – Uwch Reolwr Anableddau Dysgu (Dê Gwynedd)

**Aelod Cabinet:** Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Cynghorydd Dafydd Meurig

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Yn unol a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gwyddom fod y Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant fel rhan o Gynllun y Cyngor, sy'n cynnwys ymysg amcanion eraill, sicrhau fod trigolion Gwynedd yn *'cael byw mewn cartrefi o ansawdd yn eu cymunedau'*, a *'chael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl'*. Mae hyn yn berthnasol i bawb, gan gynnwys unigolion gydag Anableddau Dysgu.

Pwrpas yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ydi i alluogi Oedolion Gwynedd i *'fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw'*. Yn aml iawn, mae hyn yn golygu byw mewn tŷ yn y gymuned mor annibynnol a phosib, gyda chefnogaeth. Yn ogystal, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn rhoi dyletswydd arnom fel gwasanaeth i roi llais a rheolaeth i unigolion gydag Anableddau Dysgu dros eu dewisiadau mewn bywyd, ac i hyrwyddo llesiant unigolion gydag Anableddau, sydd yn cynnwys eu helpu i fyw yn annibynnol yn aml iawn.

Er mwyn gallu sicrhau fod anghenion unigolion gydag Anableddau Dysgu yn cael eu cyfarch yn llawn, rhoi dewis a diogelwch i pob Oedolyn gydag Anabledd Dysgu, a'u galluogi i fyw mor annibynnol a phosib, mae angen sicrhau fod darpariaeth digonol o dai addas ar gael ar draws Gwynedd. Mae'r galw am dai a chefnogaeth yn cynyddu – mae ymchwil diweddar gan PSSRU/LSE ar ran y DWP yn rhagweld fod y galw am dai a chefnogaeth i unigolion gydag Anableddau Dysgu yn Lloegr a Chymru yn debygol o gynyddu o 38,500 o unedau yn 2015 i 59,800 o unedau erbyn 2030, a mae'r arwyddion cynnar yn dangos fod y patrwm yma'n gyson yng Ngwynedd.

## 2. Yr Her

Ein pwynt cychwyn fel gwasanaeth yw i ddarganfod beth sy'n bwysig i unigolion gydag Anableddau Dysgu a'u teuluoedd. Yn aml iawn mae hyn yn cynnwys sgyrsiau am le bydd unigolion eisiau byw i'r dyfodol – ym mha ardaloedd, mewn sut fath o gartref, gyda pwy ayyb. Yr her sy'n ein wynebu ar hyn o bryd yw sicrhau ein bod yn gallu cyfarch beth sy'n bwysig i unigolion o ran llety. Yn aml nid yw'r eiddo addas ar gael fel cartref i unigolion gydag Anableddau Dysgu pan mae ei angen.

Fel Grŵp Prosiect Lletya Anableddau Dysgu, rydym wedi hel data o gwmpas anghenion llety Oedolion sydd yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth. Mae gennym fas-data o anghenion unigolion nawr ac i'r dyfodol. Mae'r bas-data wedi ei rannu yn ôl blaenoriaeth – Gwyrdd, Amber a Coch ;
**Coch** – Unigolion sydd angen llety ar unwaith neu o fewn y flwyddyn nesaf.
**Amber** – Unigolion sydd yn debygol o fod angen llety o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
**Gwyrdd** – Unigolion sydd yn debygol o fod angen llety yn yr hir dymor (5 mlynedd+), gan gynnwys Plant gydag Anableddau Dysgu fydd yn troi yn 18 dros y blynyddoedd nesaf.

Ar hyn o bryd, mae gennym oddeutu 30 o unigolion yn y categori Coch (angen llety ar unwaith neu o fewn y flwyddyn nesaf). Mae'r rhestr yn newid yn aml, a sefyllfaoedd unigolion yn newid, ond mae'r rhestr yn rhoi syniad i ni o'r bwlch sydd angen ei lenwi. Mae'r rhesymau pam fod Oedolion gydag Anableddau Dysgu ar y rhestr yn amrywio, ond dyma'r rhesymau pennaf :

- Byw adref gyda rhieni, a'r sefyllfa yn fregus/yn torri lawr. Unigolion a'u teuluoedd yn awyddus i symud ymlaen i eiddo eu hunain/rhannu eiddo, ond dim eiddo addas ar gael.
- Unigolion gydag Anableddau Dysgu yn byw mewn eiddo gyda chefnogaeth, ond yr eiddo yn anaddas i'r unigolion oherwydd materion diogelwch neu newid mewn anghenion.
- Unigolion mewn lleoliadau anaddas fel Cartrefi Preswyl neu lleoliad diogel (secure unit), ac yn awyddus i symud i eiddo eu hunain gyda chefnogaeth er mwyn uchafu annibyniaeth, ond dim eiddo addas ar gael.

Ar y cyfan, mae'r galw uchaf am eiddo un llawr/hygyrch, e.e. Bungalow, i unigolion gydag Anableddau Corff yn ogystal ag Anabledd Dysgu. Gan fod eiddo o'r fath mor brin, nid oes rhai yn dod fyny ar y gofrestr tai cyffredin yn aml, a felly mae angen i ni fod yn edrych ar ffyrdd gwahanol o ddiwallu'r angen. Mae angen eiddo fel arall hefyd (e.e. tai, fflatiau ayyb), ond yn gyffredinol gan fod fwy o gyflenwad o'r math yma o eiddo, mae fwy o opsiynau i gyfarch yr angen.

Bydd Asesiad Anghenion Poblogaeth yn cael ei gwblhau dros yr wythnosau nesaf gyda'n partneriaid, fydd yn rhoi cyfle i ni sefydlu'r darlun o ran beth yw anghenion trigolion Gwynedd a Gogledd Cymru dros y blynyddoedd i ddod, a bydd hyn yn cynnwys unrhyw anghenion lletya. Bydd yr asesiad anghenion yn rhoi cyfle i ni sicrhau fod y rhaglen waith lletya isod yn cyfarch yr angen a'r galw, a'n bod yn buddsoddi yn addas.

## 3. Rhaglen Waith

Er mwyn dod i'r afael gyda'r rhestr aros, ac i sicrhau darpariaeth addas o dai yn y gymuned ar gyfer unigolion gydag Anabledd Dysgu, mae'r Grŵp Prosiect Lletya Anabledd Dysgu yn gweithio ar y canlynol fel rhan o'r rhaglen waith. Mae nifer o'r cynlluniau wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Tai y Cyngor :

3.1 Blaenoriaethu Gwagleoedd

Pan fydd llefydd gwag yn cael eu amlygu o fewn tai a chefnogaeth yng Ngwynedd, mae'r gwasanaeth yn rhoi mwy o feddwl i pwy fydd yn cael cynnig y denantiaeth. Os yw'r eiddo yn arbenigol/yn addas ar gyfer unigolion gydag Anabledd Corff, mae'r blaenoriaeth yn cael ei roi i'r unigolion hynny sydd angen y llety arbenigol yma, gan gysidro dyheadau unigolion o ran lleoliad, cyd-denantiaid ayyb drwy gyd-weithio rhwng y Gweithwyr Cymdeithasol.

3.2 Y Frondeg, Caernarfon (Cynllun Gweithredu Tai – 5dd)

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Cynefin ac Adran Tai ac Eiddo y Cyngor ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer darpariaeth newydd ar safle Cartref Y Frondeg, Maesincla. Y bwriad yw darparu 17 uned byw yn annibynnol, lle bydd preswylwyr presennol Cartref Frondeg, a 7 o unigolion eraill gydag Anabledd Dysgu yn byw mewn llety addas, hygyrch, gyda'r gefnogaeth addas i hybu eu annibyniaeth. Mae trafodaethau wedi ail gychwyn ar y prosiect gyda Grŵp Cynefin, gyda'r gobaith o ymgysylltu eto yn fuan a symud ymlaen gyda'r gwaith adeiladu o fewn y flwyddyn nesaf yn dilyn cymeradwyaeth y cabinet.

3.3 Cynllun Penrhos (Cynllun Gweithredu Tai – 2b)

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Cymdeithas Dai Clwyd Alun ar y ddarpariaeth fydd yn cael ei datblygu ar safle Penrhos. Mae'r gwasanaeth Anabledd Dysgu wedi bod yn rhan o'r trafodaethau o ran y briff ar gyfer y safle, a'r gobaith ydi bydd eiddo hygyrch ar gyfer unigolion gyda Anabledd Dysgu ac Anableddau Corff yn cael eu cynnwys o fewn y ddarpariaeth newydd, oddeutu 6 uned.

3.4 Pryniant Tai Preifat (Cynllun Gweithredu Tai – 5ch)

Mae'r cynllun pryniant tai preifat yn golygu prynu tai ar y farchnad agored, a gwneud unrhyw addasiadau sydd ei angen i'w gwneud yn hygyrch. Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda'r Adran Tai ac Eiddo i drio symud y cynllun yn ei flaen, ond yn y cyfamser, rydym yn cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai ar brynu tai mewn partneriaeth. Mae eiddo 3 uned wedi ei adnabod yn ardal Arfon mewn cydweithrediad gyda Grŵp Cynefin, a'r broses prynu ar ei chanol, a'r bwriad yw edrych ar eiddo addas 3 uned yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd hefyd i beilota'r cynllun. Os yw'r cynllun peilota yn llwyddiannus, gallwn ehangu'r cynllun yma er mwyn darparu nifer sylweddol o unedau mewn cyfnod cymharol fyr.

3.5 Cydweithio gyda Chymdeithasau Tai

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu perthynas agos gyda'r swyddogion perthnasol yng Nghymdeithas dai Grwp Cynefin ac yng Nghymdeithas Dai Adra. Mae'r ddwy gymdeithas wedi cydweithio yn agos gyda'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu lle mae achosion brys yn codi, e.e. achosion diogelu lle bod angen

darganfod eiddo ar frys, er fod y ddwy gymdeithas wedi eu cyfyngu gan y gofrestr tai cyffredinol. Mae'r cymdeithasau tai yn ymwybodol o'r angen am lety arbenigol, a'r gobaith ydi y byddant yn cysidro hyn ac yn cyd weithio efo'r Gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau yn y dyfodol.

3.6 Cydweithio gyda'r Tîm Trawsnewid Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae'r tîm trawsnewid rhanbarthol Anabledd Dysgu, sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn edrych ar letya i unigolion gydag Anableddau Dysgu ar draws y Gogledd. Mae'r tîm trawsnewid yn canolbwyntio yn benodol ar unigolion gydag Anableddau Dysgu sydd yn byw yn all-sirol. Mae nifer gymharol isel o unigolion gydag Anableddau Dysgu sydd o dan ofal Gwynedd yn byw tu allan i Wynedd (dim ond 4 achos tu allan i Ogledd Cymru, a'r unigolion yma yn hapus yn eu lleoliad presennol a dim dyhead o ddychwelyd i Wynedd). Byddwn felly yn cyd-weithio gyda'r tîm rhanbarthol, ond bydd y llif gwaith yn canolbwyntio ar unigolion sydd yn byw mewn lleoliadau arbenigol ar hyd Gogledd Cymru, a sydd yn awyddus i ddychwelyd i Wynedd i fyw.

3.7 Darpariaeth Ysbaid Addas

Tra mae rhestr aros yn parhau am lety addas ar gyfer unigolion gydag Anableddau Dysgu yng Ngwynedd, mae'n hanfodol fod y Gwasanaeth yn gallu cynnig gwasanaeth ysbaid i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr er mwyn cynnal y sefyllfa yn y cartref. Mae darpariaeth ysbaid newydd hygyrch wedi ei ddatblygu yn ardal Pwllheli, fydd yn gallu cynnig ysbaid i 4 unigolyn ar unrhyw adeg. Mae'r cyfyngiadau Covid sydd wedi bod mewn lle wedi cyfyngu ar ein gallu i wneud y mwyaf o'r ddarpariaeth, ond drwy gydol y cyfnod clo rydym wedi gallu cynnig sesiynau ysbaid i unigolion mewn achosion brys ac achosion blaenoriaeth, sydd wedi bod yn hanfodol er mwyn cynnal y sefyllfa gartref mewn rhai achosion.

## 4. Camau Nesaf

Yn ogystal a parhau i ddilyn y rhaglen waith uchod, mae angen gweithredu ar y canlynol fel rhan o'r prosiect dros y cyfnod o'n blaenau :

- Creu cyswllt agosach gyda Cymdeithas Dai Gogledd Cymru.
- Trafodaethau pellach gyda tîm datblygu cymdeithas dai Adra.
- Cydweithio agosach gyda'r Tîm Opsiynau Tai er mwyn sicrhau fod unigolion gydag Anableddau Dysgu wedi eu cofnodi yn llawn ac yn gywir ar y gofrestr, a fod unigolion gydag Anableddau Dysgu yn cael y flaenoriaeth addas a teg o fewn y gofrestr.
- Sicrhau fod ein rhaglen waith yn cyd-fynd gyda'r angen a'r galw fydd yn cael ei amlygu fel rhan o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.
- Dysgu o ddatblygiad Y Frondeg, ac edrych mewn i'r posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth cyfatebol yn Nê Gwynedd.
- Ail edrych ar y ddarpariaeth ysbaid yn ardal Arfon. Gweithio gyda First Choice Housing er mwyn edrych ar yr adeilad presennol lle mae cyfnodau o ysbaid yn cael eu cynnig yn Brookfield, Bangor. Penderfynu os y byddwn yn buddsoddi yn yr adeilad neu yn edrych ar ddarpariaeth gwahanol yn yr ardal, a bydd hyn yn ddibynnol ar y gofyn yn unol a'r asesiad anghenion poblogaeth.

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Rhaglen waith ddrafft

| **01/07/2021** |
|---|
| Gofal Dementia<br><br>Darpariaeth Tai yn y gymuned ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu |
| **30/09/2021** |
| Sicrwydd Ansawdd – Gwasanaeth Oedolion<br><br>Asesiad Llesiant – anghenion poblogaeth<br><br>Desg Gymorth ar gyfer holl ymholiadau materion Tai |
| **25/11/2021** |
| Strategaeth Awtistiaeth |
| **03/02/2022** |
| Diweddariad Cynnydd: Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol<br><br>Polisi Gosod Tai<br><br>Effaith Covid ar Lesiant |
| **17/03/2022** |
| Strategaeth Tai – risg o gyflawni (a chynnwys Tai Gwag)<br><br>Strategaeth Faethu yng Ngwynedd |